



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

Canllawiau ar weithredu'n ddiogel dysgu ôl-16 (fersiwn 3.0)

Canllawiau yn nodi'r trefniadau ar gyfer darparu dysgu diogel o 1 Medi 2020 yn y sectorau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion.

Cyhoeddwyd gyntaf: 31 Gorffennaf 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 10 Chwefror 2021

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-dysgu-ol-16-fersiwn-30-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cynnwys

Cyflwyniad

Hyd a lled dysgu wyneb yn wyneb yn ystod Cam 1 o 22 Chwefror 2021 ymlaen

Cynllunio ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb

Diogelu dysgwyr a staff sy'n glinigol agored i niwed

Mesurau diogelu

Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r gofynion ar gyfer trefniadau dysgu wyneb yn wyneb mewn sefydliadau addysg bellach a chanolfannau dysgu yn y gweithle, ar gyfer y cyfnod o 22 Chwefror 2021 ymlaen. Maent yn nodi pa grwpiau dysgwyr gaiff fynychu, a'r mesurau rheoli y mae'n rhaid eu sefydlu er mwyn rheoli lledaeniad COVID-19. Maent yn disodli canllawiau gweithredu diogel cynharach y sector ôl-16 ar gyfer tymor yr hydref 2020 i 2021.

Dylid **darllen y canllawiau hyn ar y cyd â holl ganllawiau eraill Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r lefel rhybudd bresennol sydd ar waith ar gyfer Cymru.**

Yn y canllawiau hyn, defnyddir y term "Cam 1" i ddynodi'r cyfnod pan fydd nifer cyfyngedig o ddysgwyr galwedigaethol yn dychwelyd i drefniadau dysgu wyneb yn wyneb, o 22 Chwefror 2021. Maent hefyd yn cynnwys trefniadau fynychu diogel i ddysgwyr sy'n agored i niwed a'r rheini sy'n gwneud asesiadau neu arholiadau; mae'r grwpiau hyn o ddysgwyr wedi bod yn gymwys i fynychu eu coleg neu eu canolfan ddysgu drwy gydol cyfnod cyfyngiadau lefel 4.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-dysgu-ol-16-fersiwn-30-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae'r gwaith yn parhau, drwy ymgynghori â darparwyr dysgu ôl-16 a'r Cyd-Undebau Llafur, i gynllunio i'w gwneud yn bosibl i grwpiau eraill o ddysgwyr ddychwelyd pan fydd y cyfraddau heintio wedi gostwng ddigon, yn amodol ar gyngor iechyd y cyhoedd. Caiff fersiynau pellach o'r canllawiau hyn eu cyhoeddi wrth inni gytuno ar y trefniadau.

Hyd a lled dysgu wyneb yn wyneb yn ystod Cam 1 o 22 Chwefror 2021 ymlaen

Caniateir i'r grwpiau dysgwyr canlynol fynychu colegau neu ganolfannau dysgu yn ystod Cam 1.

Dysgwyr sy'n agored i niwed (yr oedd caniatâd iddynt fynychu eisoes cyn hanner tymor)

Cyfrifoldeb y darparwr yw nodi pa ddysgwyr ddylai fynychu ar sail y ffaith eu bod yn agored i niwed, a gwneud y trefniadau angenrheidiol i'r dysgwyr hynny gael mynychu safle'r darparwr. Wrth nodi'r dysgwyr sy'n agored i niwed, dylai'r darparwr ystyried yr egwyddor ganlynol:

- rhaid i bob plentyn a pherson ifanc fod yn ddiogel, rhaid iddynt fod yn weladwy a chael eu clywed, a rhaid eu magu a'u datblygu

Wrth benderfynu pa ddysgwyr sy'n agored i niwed, dylid:

- ystyried effaith unrhyw gyfyngiadau ar iechyd emosiynol, meddyliol a chorfforol y dysgwr, a'i ddatblygiad addysgol
- ystyried sut y gellid lliniaru ar risgiau peidio â mynychu sesiynau dysgu wyneb yn wyneb drwy'r cymorth mwyaf priodol
- ystyried y rheini sydd efallai yn ei chael yn anodd manteisio ar sesiynau addysg o bell yn eu cartref (er enghraifft oherwydd diffyg dyfeisiau neu le tawel i astudio)
- ystyried safbwyntiau'r dysgwr er mwyn deall a darparu ar gyfer ei anghenion drwy'r cymorth mwyaf priodol
- blaenoriaethu cymorth i ddysgwyr yn ôl risgiau a manteision, a dylid adolygu

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-dysgu-ol-16-fersiwn-30-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

a monitro'r risgiau hyn yn rheolaidd ar sail amlasiantaethol

Dylai darparwyr dysgu sicrhau bod ganddynt drefniadau ar waith i fonitro presenoldeb dysgwyr agored i niwed, a bod staff addysgu a chymorth yn gwybod pwy sy'n cael mynychu ar y sail hon (gan barchu preifatrwydd y dysgwr). Mae'n bosibl y bydd dysgwr yn bresennol er mwyn cael cymorth dysgu neu i drafod ei anghenion lles yn ogystal ag ar gyfer dysgu ffurfiol.

Dysgwyr sy'n gwneud asesiadau neu arholiadau (yr oedd caniatâd iddynt fynychu eisoes cyn hanner tymor)

Lle bynnag y bo'n bosibl, dylid aildrefnu asesiadau neu arholiadau neu eu cynnal o bell. Lle nad yw hyn yn bosibl, a lle na all y dysgwr symud ymlaen ar ei gwrs heb yr asesiad, caiff fynd i'w goleg neu ei ganolfan ddysgu i wneud hynny. Mae hyn yn cynnwys:

- Dysgwyr sy'n sefyll arholiadau y gellid eu gwneud o bell, ond sydd â chyfrifoldebau gofalu neu amgylchiadau eraill gartref sy'n golygu bod angen iddynt fynd i'w coleg neu eu canolfan ddysgu er mwyn cael yr amodau iawn i berfformio'n dda.
- Ymarferwyr dysgu yn y gweithle sy'n ymweld â gweithleoedd er mwyn gwneud asesiadau na ellir eu cwblhau o bell.
- Profion iechyd a diogelwch mewn canolfannau dynodedig, ac arholiadau neu brofion tebyg na ellir eu cwblhau o bell ac sy'n hanfodol ar gyfer y gwaith.

Caiff dysgwyr y trefnwyd eisoes iddynt fynd i'w coleg neu eu canolfan ddysgu ar gyfer asesiad ymgymryd â gweithgareddau dysgu yn ystod yr un diwrnod, er mwyn eu paratoi, eu hatgoffa am wybodaeth benodol neu adnewyddu eu sgiliau cyn eu hasesiad. Rhaid cadw pellter cymdeithasol wrth gynnal y sesiynau dysgu hyn, gan ddilyn y canllawiau yn y ddogfen hon. Rhaid i ddarparwyr dysgu sefydlu trefniadau i sicrhau bod dysgwyr yn cydymffurfio â gofynion cadw pellter, a chynnal pellter cymdeithasol a gwisgo gorchuddion wyneb lle bo hynny'n berthnasol, gan gynnwys yn ystod seibiannau neu mewn ardaloedd a rennir.

Dysgwyr galwedigaethol, gan gynnwys prentisiaid, sy'n

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-dysgu-ol-16-fersiwn-30-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ymgymryd â chymwysterau “trwydded i ymarfer” neu gymwysterau eraill na ellir eu darparu ar-lein

Lle bynnag y mae modd i ddysgwyr barhau â'u dysgu ar-lein, dylent wneud hynny am y tro. Lle nad yw hyn yn bosibl, am fod angen mynediad at gyfleusterau a chyfarpar arbenigol ar ddysgwyr er mwyn datblygu sgiliau ymarferol, gall dysgwyr ddychwelyd i'w coleg neu eu canolfan ddysgu yn ystod Cam 1. Rhaid darparu dysgu ar sail cadw pellter cymdeithasol a chyda gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do a lle na ellir cadw pellter o ddau fetr, a dylai'r darparwyr drefnu eu cyfleusterau a'u hamserlenni er mwyn rheoli'r niferoedd sydd ar y safle mewn ffordd sy'n ei gwneud yn bosibl cadw pellter.

Yn ystod Cam 1, ni chaiff darparwyr:

- ddarparu sesiynau dysgu wyneb yn wyneb ar gyfer unrhyw grwpiau ar wahân i'r uchod
- agor cyfleusterau megis tai bwyta hyfforddi na salonau hyfforddi i'r cyhoedd
- trefnu profiad gwaith na lleoliadau gwaith newydd i ddysgwyr
- darparu gweithgareddau allgwricwlaidd wyneb yn wyneb

Caiff myfyrwyr TAR/cymwysterau addysgu sy'n ymgymryd â hyfforddiant ymarfer addysgu fynychu eu coleg i wneud hynny, yn amodol ar ofynion y canllawiau hyn o ran pa mor agored y maent yn glinigol i niwed.

Cynllunio ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb

Wrth baratoi i ailgroesawu dysgwyr ychwanegol, dylai darparwyr:

- Gynnal a chyhoeddi asesiad risg llawn a gweithredu trefniadau i reoli risgiau iechyd a diogelwch, er mwyn sicrhau bod gweithleoedd yn COVID-ddiogel cyn gofyn i ddysgwyr a staff ddychwelyd (gweler y canllawiau isod ar gyfer asesiadau risg) a chyfeirio at [canllawiau Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch](#).
- Ymgynghori â staff, undebau a rhanddeiliaid.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-dysgu-ol-16-fersiwn-30-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Datblygu cynlluniau cyfathrebu ar gyfer staff, dysgwyr, rhieni/gofalwyr a chyflogwyr, yn cynnwys ffyrdd clir iddynt ofyn cwestiynau a mynegi pryderon; Ystyried sut y gellir trefnu ardaloedd dysgu er mwyn sicrhau ymbellhau cymdeithasol o ddau fetr rhwng yr holl ddysgwyr a staff.
- Ystyried y gofyniad i wisgo **gorchuddion wyneb** mewn mannau cyhoeddus dan do ac ardaloedd eraill lle na ellir cadw pellter o ddau fetr.
- Ystyried darparu glanweithyddion dwylo.
- Ystyried sut y gellir awyru ardaloedd dysgu ymhellach er mwyn sicrhau awyru digonol.
- Cyfathrebu ynghylch yr ymddygiad disgwylidig yn glir i ddysgwyr yn **cynnwys gofynion cadw pellter** cymdeithasol; gofynion **gorchuddion wyneb**; gofynion hylendid fel golchi dwylo'n rheolaidd a thrylwyr; beth i'w wneud os ydynt yn teimlo'n sâl; beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon neu orbryder; a beth fyddai'n digwydd pe na fyddent yn cydymffurfio â gofynion.
- Ystyried sut y dylai gofynion cadw pellter cymdeithasol a golchi dwylo a hylendid anadlol gael eu hadlewyrchu mewn polisïau disgyblu a sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o unrhyw ganlyniadau diffyg cydymffurfio â gofynion cadw pellter cymdeithasol.
- Ystyried teithio i ac o ganolfannau dysgu, gan gyfeirio at **ganllawiau teithio a chanllawiau gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth cyhoeddus** Llywodraeth Cymru a'r **canllawiau ar ddefnyddio gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus**. Dylai darparwyr ystyried p'un a ddylid darparu bysus neu dacsis ychwanegol er mwyn lleihau'r cyswllt rhwng dysgwyr wrth deithio.
- Penderfynu ar ofynion glanhau a diheintio a materion megis ailgysylltu cyflenwadau dwr cyn ac ar ôl ailagor, gan gyfeirio at **ganllawiau Llywodraeth y DU ar ddihalogi mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai gofal iechyd a chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar risgiau llengfilwyr**.
- Ystyried gofynion darparu cyfarpar diogelu personol (PPE) i ddysgwyr/neu staff, yn unol ag asesiadau risg y darparwr (cyfeiriwch at adran 6 isod).
- Ystyried yr amserlen, yn cynnwys gwahanol amserau dechrau a gwahanol amserau ar gyfer seibiannau, gan gynnwys sut i gadw pellter cymdeithasol yn ystod y seibiannau.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-dysgu-ol-16-fersiwn-30-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Diogelu dysgwyr a staff sy'n glinigol agored i niwed

Gall staff ddefnyddio **adnodd asesu risg** Llywodraeth Cymru ar gyfer y gweithle i gynnal hunanasesiad. Mae nifer o fodolau y gellir eu defnyddio i gefnogi rheolwyr yn ystod trafodaethau gyda'u timau am ffactorau risg personol unigolyn wrth ddychwelyd i'r gweithle, neu aros ynddo. Y nod yw helpu i alluogi sgysiau adeiladol da rhwng rheolwyr a chydweithwyr am unrhyw amgylchiadau personol a allai gynyddu'r risg o'r coronafeirws, a chytuno ar unrhyw gamau y mae angen eu cymryd. Mae "Talking with your workers about working safely during the coronavirus pandemic" yn ganllawiau gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar sut all cyflogwyr fynd ati i gynnal y sgwrs hon gyda staff.

Os yn ansicr a yw cyflwr iechyd unigolyn yn golygu na ddylent fod yn mynychu eu gweithle neu leoliad eu darparwr dysgu, dylai staff, dysgwyr, rhieni a gofalwyr dderbyn cyngor gan eu meddyg teulu neu ysbyty. Efallai y byddant yn dymuno trafod risgiau mynychu gyda'u meddyg a'u darparwr cyn gwneud penderfyniad.

Dysgwyr a staff sy'n eithriadol o agored i niwed neu a oedd yn arfer 'hunanwarchod'

Bydd pobl sy'n eithriadol o agored i niwed o ran COVID-19 am fod ganddynt gyflyrau iechyd penodol eisoes wedi cael **llythyr** gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, yn dweud wrthynt na ddylent fynychu eu gwaith neu eu canolfan ddysgu bellach. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r rheini y mae eu gwaith yn dod â nhw i gyswllt rheolaidd neu estynedig â phobl eraill, neu lle mae unigolion yn rhannu ardal waith ag eraill am gyfnodau hir lle nad oes digon o awyr iach yn dod i mewn. Gweler y **canllawiau ar ddiogelu pobl y'u diffinnir ar sail feddygol fel pobl sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol**.

Yn ystod Cam 1, ni ddylai staff na dysgwyr sy'n perthyn i'r categori "eithriadol o agored i niwed yn glinigol" fynychu eu coleg neu eu canolfan ddysgu o dan unrhyw amgylchiadau.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-dysgu-ol-16-fersiwn-30-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Byw gyda rhywun sy'n eithriadol o agored i niwed (a oedd yn arfer hunanwarchod)

Os yw dysgwr neu aelod o staff yn byw gyda rhywun a oedd yn arfer **hunanwarchod**, dylent gadw'n gaeth at y mesurau cadw pellter cymdeithasol pan maent yn mynychu eu coleg neu eu canolfan ddysgu, a dylai'r dysgwr allu deall a dilyn y cyfarwyddiadau hynny. Efallai na fydd hyn yn bosibl i ddysgwyr sy'n methu dilyn y cyfarwyddiadau ar **gadw pellter cymdeithasol**. Yn yr achosion hynny, nid ydym yn disgwyl i'r dysgwyr hynny fod yn bresennol a dylid eu cefnogi i ddysgu gartref. Fodd bynnag, dylid ystyried hyn yng ngoleuni'r **cyngor** diweddaraf ynghylch gwarchod.

Mesurau diogelu

Lleihau'r cyswllt rhwng unigolion pan fo'n bosibl

Yn ystod Cam 1, rhaid i bob sesiwn ddysgu ac asesiad wyneb yn wyneb ddigwydd ar sail cadw pellter cymdeithasol. Hynny yw, rhaid i'r dysgwyr a'r staff gadw dau fetr ar wahân i'w gilydd drwy gydol y diwrnod, mewn gweithdai/ystafelloedd dosbarth yn ogystal ag yn yr ardaloedd o'r coleg neu'r ganolfan ddysgu a rennir. Dylid ystyried trin gorchuddion wyneb mewn mannau cymunedol dan do yn ogystal â chadw pellter cymdeithasol. Ni fydd y mesur rheoli o ddefnyddio grwpiau cyswllt ar gyfer dysgwyr amser llawn yn cael ei ddefnyddio yn ystod Cam 1.

Rydym yn cydnabod y bydd yna amgylchiadau lle nad yw hyn yn bosibl; er enghraifft, wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, wrth ddangos techneg ymarferol i ddysgwr, neu lle bydd angen i aelod o'r staff ymyrryd am resymau diogelwch. Ar yr adegau hyn, rhaid i'r dysgwyr a'r staff sicrhau bod y cyfnod pan fyddant o fewn dau fetr i berson arall mor fyr â phosibl, er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r haint, a rhaid gwisgo gorchuddion wyneb os oes angen pobl am y rhesymau hyn i ddod o fewn dau fetr i'w gilydd.

Dylai asesiadau risg ystyried sut y gellir rheoli ardaloedd a rennir er mwyn helpu pawb i ddilyn y mesurau rheoli (er enghraifft, drwy drefnu ystafelloedd,

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-dysgu-ol-16-fersiwn-30-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

swyddfeydd, ffreuturiau ac ardaloedd gwaith i hyrwyddo cadw pellter cymdeithasol, drwy orchymyn gorchuddion wyneb mewn ardaloedd cymunedol).Ni ddylid defnyddio ardaloedd sy'n debygol o hybu cymysgu anffurfiol neu gymdeithasol ymhlith dysgwyr a staff, megis ystafelloedd cyffredin ac ystafelloedd staff, oni bai bod modd eu trefnu yn y ffordd hon.

Arholiadau

Cyrraedd a gadael arholiadau

Wrth i ymgeiswyr gyrraedd lleoliad eu harholiadau cyn i'r arholiad ddechrau, bydd angen ichi sicrhau eich bod yn cadw'r ymgeiswyr oddi wrth fyfyrwyr eraill sy'n cyrraedd y coleg neu'r ganolfan ddysgu.

Dylech ofalu hefyd bod mesurau cadw pellter cymdeithasol yn cael eu dilyn pan fydd ymgeiswyr yn cyrraedd yr arholiad yn hwyr.

Bydd angen ichi sicrhau bod yna gynllun i reoli sut bydd yr ymgeiswyr yn mynd i mewn i'r ystafell neu'r safle arholi ac yn gadael, yn enwedig gan y bydd yr arholiadau yn gorffen ar adegau gwahanol efallai. Bydd angen ichi ystyried unrhyw ymgeiswyr y mae angen amser ychwanegol arnynt mewn arholiadau.

Cynllun yr ystafell arholi

Dylai'r ymgeiswyr gael eu gosod i eistedd dau fetr oddi wrth ei gilydd. Gellir eu gosod i eistedd yn yr un ystafell, ond dylid cadw dau fetr rhwng pob ymgeisydd. Cyn belled â'u bod ddau fetr oddi wrth ei gilydd bob amser, ni ddylai hyn gyfrif fel cyswllt at ddibenion profi ac olrhain.

Nid oes cyfyngiad cyffredinol ar nifer yr ymgeiswyr a gaiff eistedd mewn ystafell, cyn belled â bod gofod priodol rhwng y desgiau. Yr hyn sy'n penderfynu faint o ymgeiswyr a gaiff sefyll arholiad yn yr un ystafell yw faint o le sydd yna i ddesgiau ar sail pellter o ddau fetr rhyngddynt.

Fel y mae'r canllawiau hyn yn ei nodi, mae'n bwysig gofalu bod digon o awyr iach yn dod i mewn i'r lleoliad, a gwneud ymdrech arbennig i'w awyru lle bynnag

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-dysgu-ol-16-fersiwn-30-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

y bo modd.

Caiff goruchwylwyr gerdded i fyny ac i lawr yr eiliau rhwng y desgiau, ond rhaid bod yna lefydd yn yr ystafell lle gall goruchwylwr sefyll o leiaf dau fetr oddi wrth y desgiau agosaf, lle gall weld pob ymgeisydd yn yr ystafell. Os bydd goruchwylwr yn pasio'n agos at ddesg, ond yn treulio'r rhan fwyaf o'r amser yn rhywle arall, e.e. yn nhu blaen neu ar gyrion yr ystafell, nid yw hyn yn ei wneud yn gyswllt.

Goruchwylwyr

Gall goruchwylwyr symud rhwng un ysgol, coleg a chanolfan ddysgu ac un arall. Dylent sicrhau eu bod yn cadw eu cyswllt ag aelodau'r staff i'r cyfnodau byrraf posibl a chadw pellter cymdeithasol oddi wrthynt. Dylent hefyd ddilyn pob protocol arall ar gyfer ymwelwyr, gan gynnwys gwisgo gorchudd wyneb.

Dylai goruchwylwyr gael eu briffio'n llawn cyn yr arholiadau beth sy'n ddisgwyliedig ganddynt o ran lefel cyswllt, ac o ran cadw cymaint o bellter â phosibl oddi wrth aelodau staff eraill.

Nid yw'n ofynnol i oruchwylwyr wisgo menig wrth gasglu sgriptiau arholiadau gan yr ymgeiswyr, ond dylent olchi eu dwylo'n dwyadl ac yn amlach nag arfer, ac yn enwedig ar ôl trafod y papurau arholiad.

Cadw pellter rhwng staff ac ymgeiswyr

Dylai goruchwylwyr ac aelodau staff eraill sefyll wrth ochr ymgeiswyr wrth ryngweithio â nhw yn hytrach na wyneb yn wyneb. Os byddant yn treulio mwy na 15 munud gyda nhw, er enghraifft pan fydd ysgrifenyddion/darllenwyr neu unigolion eraill yn darparu cymorth i ymgeiswyr, dylai'r staff gadw pellter o ddau fetr lle bo'n bosibl, gan ddefnyddio ystafelloedd ar wahân i'r ymgeiswyr eraill er enghraifft. Lle nad yw hyn yn bosibl, dylent osgoi cyswllt agos wyneb yn wyneb a chadw cyfnodau pan fyddant o fewn metr i'w gilydd mor fyr â phosibl.

Efallai na fydd y trefniadau hyn yn bosibl wrth weithio gyda rhai ymgeiswyr sydd ag anghenion cymhleth. Os felly, dylid darparu cymorth addysgol yr ymgeiswyr hyn yn unol â'r arfer yn ystod arholiadau. I gael gwybod mwy, gweler y

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-dysgu-ol-16-fersiwn-30-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

canllawiau ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed ac sydd dan anfantais.

Lleihau'r cyswllt rhwng unigolion pan fo'n bosibl. Lleihau cyswllt ag unigolion sy'n sâl trwy sicrhau nad yw'r rheini sydd â symptomau COVID-19, neu y mae gan rywun yn eu haelwyd neu eu haelwyd estynedig symptomau, yn mynychu eu coleg, eu canolfan ddysgu neu eu lleoliad gwaith

Beth bynnag fo'r amgylchiadau, ni ddylai dysgwyr na staff ddod i'r coleg, eu canolfan ddysgu neu eu gweithle:

- os ydynt yn teimlo'n anhwylyd ac, os oes ganddynt unrhyw un o'r **symptomau** COVID-19. Os yw hyn yn wir mae'n rhaid iddynt **ynysu** ar unwaith a bwcio **prawf** COVID-19
- os ydynt wedi cael canlyniad positif am COVID-19
- os ydynt yn byw gyda rhywun sydd â symptomau COVID-19 neu sydd wedi cael canlyniad positif am COVID-19 (os felly dylid bod yn ymwybodol o'r angen i ynysu ar unwaith)
- os yw Gwasanaeth **Profi, Olrhain, Diogelu** GIG Cymru wedi gofyn iddynt ynysu

Mae darparwyr yn chwarae rôl bwysig o ran cefnogi swyddogion olrhain cysylltiadau i gyflawni eu gwaith o nodi cysylltiadau achosion positif. Y nod cyffredinol yw cadw nifer cysylltiadau achos positif i'r lefel isaf bosibl. Ni ddefnyddir yr un dull gweithredu ym mhob sefyllfa, a bydd angen i leoliadau benderfynu sut y gallant weithredu'r canllawiau yn y ffordd fwyaf effeithiol o fewn eu cyd-destun lleol a'u hamgylchiadau nhw.

Dylai fod gan ddarparwyr bolisi a gweithdrefnau uwchgyfeirio clir ar waith os bydd dysgwyr neu staff yn dechrau dangos symptomau o COVID-19 pan fyddant yn y coleg neu mewn canolfan. Mae angen i'r staff, y dysgwyr (pan fyddant yn gallu) a'r rhieni/gofalwyr ddeall y rhain yn llawn.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-dysgu-ol-16-fersiwn-30-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Os bydd dysgwyr neu staff sydd â symptomau wedi cyffwrdd ag unrhyw arwynebau, dylid glanhau'r arwynebau hynny'n ofalus ac yn drylwyr yn unol â'r **canllawiau** hyn.

Dylai unrhyw un sydd â symptomau COVID-19 aros gartref a hunanynysu tra byddant yn trefnu i gael prawf. Mae **canllawiau hunanynysu** Llywodraeth Cymru yn nodi'r camau i'w cymryd a'r cyfnodau o ynysu sy'n ofynnol ar gyfer achosion posibl neu wedi'u cadarnhau o COVID-19, ac aelodau o'u haelwyd/aelwyd estynedig, a dylid eu darllen yn ofalus a chadw atynt.

Sicrhau digon o awyr iach

Dylai darparwyr sicrhau bod digon o awyr iach.. Lle mae yna systemau awyru mecanyddol canolog neu leol, dylid eu haddasu i ganiatáu cymaint â phosibl o awyr iach. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid gweithredu'r systemau yn ôl eu harfer. Dylid dechrau awyru'r dosbarthiadau cyn cychwyn y diwrnod a dylid parhau ar ôl i'r gwersi ddod i ben. Os oes gan unedau awyru ffiltrau, dylid bod yn fwy gofalus nag arfer wrth eu newid. Dylid gwirio neu addasu systemau awyru i sicrhau nad ydynt yn addasu'r lefelau awyru yn awtomatig yn ôl faint o bobl sydd yn yr adeilad. Gall darparwyr ymgynghori â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar systemau awyru.

Lle mae darparwyr yn dibynnu ar awyr iach naturiol, gan gynnwys agor ffenestri a drysau, dylid parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, wrth sicrhau bod cymaint o awyr iach â phosibl yn dod i mewn i'r dosbarth, cydnabyddir y bydd angen cydbwysu hynny â chynnal tymheredd rhesymol a'r risgiau sydd ynghlwm wrth agor ffenestri. Dylid adolygu'r Asesiad Risg o ran Diogelwch Tân bob amser cyn cadw unrhyw ddrysau mewnol ar agor.

Nid oes rhaid agor ffenestri a drysau yn llawn er mwyn cael y lefelau gofynnol o awyr iach. Gellir eu agor yn rhannol. Efallai y bydd angen cynghori staff ynghylch sut i awyru lleoliad yn y ffordd fwyaf priodol. Gellir awyru ystafelloedd dosbarth yn llawnach rhwng dosbarthiadau neu cyn iddynt gael eu defnyddio nesaf.

Er bod gwella'r cyflenwad awyr iach yn allweddol, dylai darparwyr barhau i

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-dysgu-ol-16-fersiwn-30-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

sicrhau bod mesurau ehangach cadw pellter cymdeithasol, hylendid personol a glanhau ychwanegol yn cael eu gweithredu a'u cynnal.

Awyr iach yn y gaeaf

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y feirws yn cael ei ledaenu'n bennaf drwy ddefnynnau mwy ac aerosolau llai, a ryddheir wrth inni beswch, tisian, chwerthin, siarad neu anadlu. Mae'n fwy cyffredin i'r feirws gael ei ledaenu dan do, felly, na'r tu allan, gan ei bod yn anoddach i'r defnynnau a'r aerosolau gael eu gwasgaru.

Bydd agor ffenestri yn y bore cyn i bobl gyrraedd y gwaith neu cyn i'r dosbarthiadau ddechrau am o leiaf bum munud, a fin nos ar ôl i bawb fynd adref yn caniatáu i'r awyr gylchredeg. Os yw'n bosibl, agorwch bob ffenest am rai munudau yn ystod y diwrnod gwaith/coleg er mwyn trawsawyru – hynny yw, i'r hen awyr lifo allan ac i'r awyr iach ddod i mewn.

Aerdymheru

Nid oes angen addasu'r rhan fwyaf o systemau aerdymheru, ond lle bydd systemau yn gwasanaethu mwy nag un adeilad, neu os byddwch yn ansicr, dylid gofyn i'ch peirianwyr neu eich cynghorwyr gwresogi, awyru ac aerdymheru am gyngor.

O ran systemau aerdymheru canolog cwbl fecanyddol, sy'n cyflenwi ac yn echdynnu aer o fwy nag un ystafell, yr arfer gorau yw osgoi ailgylchu aer. Dylid gallu diffodd ailgylchu ar bob system aerdymheru fecanyddol ganolog, a gallu cael cyflenwad aer ffres yn unig.

O ran systemau mecanyddol mewn ystafelloedd dosbarth unigol, lle mae'r moddau ailgylchu aer yn galluogi cyfraddau uwch o aer ffres i gael eu cyflenwi mewn ardal, er enghraifft drwy atal drafftiau oer, dylid caniatáu'r defnydd o'r dyfeisiau hyn.

Byddai ffaniau'n ailgylchu'r aer sydd yno'n barod, felly ni fyddent yn cael eu hargymell.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-dysgu-ol-16-fersiwn-30-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Sicrhau hylendid dwylo ac anadlol da

Mae golchi dwylo'n drylwyr ac yn aml gyda dŵr sy'n rhedeg a sebon neu hylif diheintio dwylo yn ffordd effeithiol o leihau'r risg o ddal COVID-19. Dylai darparwyr, trwy negeseuon, arwyddion a hysbysebion, atgoffa dysgwyr o'r angen i olchi eu dwylo'n rheolaidd, gan gynnwys pan fyddant yn cyrraedd, pan fyddant yn dychwelyd ar ôl egwyl, pan fyddant yn newid ystafell a chyn ac ar ôl bwyta. Mae mwy o wybodaeth ar olchi dwylo yn gywir yn y canllawiau [cadw pellter cymdeithasol](#). Bydd angen golchi dwylo'n rheolaidd ac yn drylwyr am gryn amser eto. Mae'r pwyntiau i'w hystyried a'u gweithredu yn cynnwys:

- a oes digon o gyfleusterau golchi dwylo neu ddiheintio dwylo ar gael ar y safle er mwyn i'r holl ddysgwyr a staff allu golchi eu dwylo'n rheolaidd
- goruchwyllo dysgwyr pan fyddant yn defnyddio hylif diheintio dwylo o ystyried y risgiau sydd ynghlwm wrth ei lyncu. Dylid parhau i helpu dysgwyr sydd ag anghenion cymhleth i olchi eu dwylo'n iawn
- ymgorffori'r arferion hyn yn niwylliant y sefydliad, gan osod disgwyliadau o ran ymddygiad i'w cefnogi, a helpu dysgwyr iau a'r rheini sydd ag anghenion cymhleth i ddeall bod angen eu dilyn

Mae'r dull 'ei ddal, ei daflu, ei ddifa, golchwch eich dwylo' yn dal yn bwysig iawn, felly mae'n rhaid i ddarparwyr sicrhau bod ganddynt ddigon o hancesi papur a biniau sbwriel ar gael i gefnogi'r dysgwyr a'r staff i ddilyn y drefn hon. Yn yr un modd â gyda golchi dwylo, rhaid i ddarparwyr sicrhau bod dysgwyr sydd ag anghenion cymhleth yn cael cymorth i wneud hyn yn iawn, a bod pob dysgwr yn deall mai dyma sut mae eu darparwr yn gweithredu.

Efallai y bydd hi'n anodd i rai dysgwyr sydd ag anghenion cymhleth gadw hylendid anadlol da i'r un graddau. Dylid ystyried hyn mewn asesiadau risg er mwyn cefnogi'r dysgwyr hyn a'r staff sy'n gweithio gyda nhw, ac nid yw hyn, ar ben ei hun, yn rheswm dros beidio â darparu addysg wyneb yn wyneb i'r dysgwyr hyn.

Glanhau'n amlach, gan gynnwys glanhau arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn aml yn rheolaidd, gan ddefnyddio

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-dysgu-ol-16-fersiwn-30-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

cynnyrch safonol fel glanedyddion a channydd

Dylai darparwyr ddilyn y **canllawiau glanhau** diweddaraf ar gyfer lleoliadau nad ydynt yn rhai gofal iechyd. Mae'r pwyntiau i'w hystyried a'u gweithredu yn cynnwys:

- paratoi amserlen lanhau sy'n sicrhau bod y glanhau'n cael ei wella'n gyffredinol a'i fod yn cynnwys:
 - glanhau ystafelloedd/ardaloedd a rennir yn amlach ar ôl i wahanol grwpiau eu defnyddio
 - glanhau arwynebau sy'n cael eu cyffwrdd yn rheolaidd yn amlach nag arfer
 - ystyried darparu deunydd glanhau ac annog dysgwyr i lanhau eu desgiau cyn ac ar ôl eu defnyddio
- defnyddio hylif diheintio dwylo cyn mynd i mewn i'r toiled a sicrhau bod y toiledau'n cael eu glanhau'n rheolaidd. Rhaid annog y dysgwyr i olchi eu dwylo'n drylwyr ar ôl defnyddio'r toiled

Gwisgo gorchuddion wyneb a/neu, pan fydd angen, gyfarpar diogelu personol priodol

Mae'n bwysig cofio bod tystiolaeth gref sy'n dangos mai cadw pellter cymdeithasol/corfforol, hylendid dwylo a hylendid anadlol (dal peswch neu disian mewn hances bapur a chuddio'r geg a'r trwyn gyda phenelin neu lawes a golchi eich dwylo) yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol o atal lledaeniad y coronafeirws. Felly nid oes angen defnyddio cyfarpar diogelu personol wrth gynnal gweithgareddau addysgol arferol mewn colegau neu ganolfannau. Mae rhestr o eithriadau isod.

Gorchuddion wyneb

Rhaid gwisgo gorchuddion wyneb ym mhob sefyllfa lle na ellir cadw pellter o ddau fetr yn gyson (ac eithrio wrth fwyta ac yfed). Dylai'r rhain fod yn orchuddion wyneb tair haen o leiaf, fel yr argymhellwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd. Mae canllawiau ar fathau o orchuddio wynebau, a sut i'w defnyddio, eu golchi a'u gwaredu'n ddiogel fel y bo'n briodol i'w math wedi'u cynnwys yn y

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-dysgu-ol-16-fersiwn-30-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

canllawiau ar orchuddio wynebau.

Dylai darparwyr fod yn ymwybodol o eithriadau cyfreithlon a dylent fod yn sensitif iddynt, megis pobl sydd ag anableddau neu anghenion cymhleth eraill sy'n golygu na allant ddefnyddio gorchudd wyneb yn gywir, neu'r rheini sy'n siarad â rhywun sy'n fyddar neu sydd â nam ar eu clyw, neu'n rhoi cymorth iddynt. Dylai darparwyr sefydlu systemau, megis cortyn gwddf blodyn haul, i sicrhau bod modd i bobl arddangos eu bod wedi'u heithrio, a bod staff yn gwybod pryd a sut i herio'r rheini nad ydynt yn defnyddio gorchuddion wyneb.

Achosion posibl o COVID-19

- Dylid gwisgo menig, ffedogau a masgiau llawfeddygol gwrth-hylif os bydd rhywun yn mynd yn anhwylyd gyda symptomau COVID-19 ac os bydd angen gofal personol uniongyrchol ar y plentyn neu'r person ifanc.
- Dylid hefyd gwisgo cyfarpar diogelu'r llygaid os bydd asesiad risg yn pennu bod risg y bydd rhywbeth yn sblasio i'r llygaid, er enghraifft drwy beswch, poeri neu daflu i fyny.
- Dylid gwisgo menig a ffedogau wrth **lanhau'r** ardaloedd lle mae rhywun yr amheuir bod COVID-19 arno wedi bod.

Gofal personol

- Dylid parhau i wisgo menig a ffedogau wrth ddarparu gofal personol i ddysgwyr. Mae hyn yn gallu cynnwys gofal ymarferol personol fel ymolchi, defnyddio'r toiled neu gymorth cyntaf a rhai gweithdrefnau clinigol fel cymorth bwydo.
- Dylid hefyd gwisgo masgiau llawfeddygol gwrth-hylif a chyfarpar diogelu'r llygaid os bydd asesiad risg yn pennu bod risg y bydd rhywbeth yn sblasio i'r llygaid, er enghraifft drwy beswch, poeri neu daflu i fyny.
- Dylid defnyddio menig, gynau gwrth-hylif, masgiau FFP3 a chyfarpar diogelu'r llygaid wrth ymgymryd â gweithdrefnau gofal sy'n cynhyrchu aerosolau fel sugno.
- Dylid defnyddio menig a ffedogau wrth lanhau cyfarpar neu arwynebau y

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-dysgu-ol-16-fersiwn-30-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

mae'n bosibl eu bod wedi cael eu halogi gan hylifau o'r corff fel poer neu secretiadau anadlol.

Dysgu galwedigaethol

Fel y nodir uchod, dylai darparwyr gynnal asesiadau risg ar gyfer darpariaeth alwedigaethol a darpariaeth yn seiliedig ar waith a dylent ddefnyddio PPE o safon y diwydiant priodol i helpu i leihau'r risg o haint. Bydd hyn yn angenrheidiol ar gyfer diwydiannau "cyswllt agos" yn benodol, ac ar gyfer dysgwyr cyflogedig fel prentisiaid. Rhaid i ddysgwyr a staff gael hyfforddiant ar ddefnyddio PPE yn ddiogel fel bo'n briodol ar gyfer eu diwydiant. Pan fo dysgwyr wedi'u lleoli mewn unrhyw weithle, ac ymarferwyr dysgu yn y gweithle yn ymweld â nhw, rhaid iddynt gadw at y rheolau ar wisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cyhoeddus o dan do, fel sy'n briodol i'r gweithle hwnnw.

Dylai staff lleoliadau darparwyr ddefnyddio cyfarpar diogelu personol ar sail asesiad clir o'r risg, gan ystyried anghenion y dysgwr unigol. Ar ôl cynnal unrhyw asesiad risg, os daethpwyd i'r casgliad bod angen cyfarpar diogelu personol, dylai fod ar gael yn hawdd. Mae'r **Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch** wedi darparu rhagor o wybodaeth. Dylai'r holl staff ddeall sut mae gwisgo a thynnu cyfarpar diogelu personol yn y drefn iawn, gwaredu'r gwastraff yn ddiogel a defnyddio camau hylendid dwylo cywir i leihau'r risg o drosglwyddo'r haint ymlaen. Ym mhob sefyllfa, dylid bob amser golchi dwylo cyn gwisgo cyfarpar diogelu personol ac ar ôl ei dynnu i ffwrdd.

Cydymffurfio â strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu Llywodraeth Cymru a'r GIG, ac o dan reolau GDPR bydd angen rhoi gwybod i staff, rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid o rwymedigaethau darparwyr dysgu o dan y strategaeth honno

Mae Profi, Olrhain, Diogelu yn gweithio drwy:

- Profi pobl sydd â symptomau'r coronafeirws, gofyn iddynt ynysu oddi wrth deulu, ffrindiau ac o'u cymuned, neu ofyn eu bod nhw, eu haelwyd a'u

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-dysgu-ol-16-fersiwn-30-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

haelwyd estynedig i ynysu tra byddant yn cymryd prawf ac yn aros am y canlyniad. Gall pobl â symptomau wneud cais am brawf eu hunain neu gall aelod o'u haelwyd sydd â symptomau wneud cais am brawf. Mae hyn yn cynnwys oedolion a phlant gan gynnwys plant dan 5 oed. Mae gwybodaeth a **chanllawiau** i staff ar sut mae gwneud cais am brawf ar gael ar **wefan Llywodraeth Cymru**.

- Olrhain y bobl sydd wedi cael cyswllt agos â'r bobl sydd wedi cael canlyniad positif am y feirws, gan fynnu eu bod yn cymryd rhagofalon drwy **hunanyynysu**. Mae rhagor o wybodaeth ar gael **ar wefan Llywodraeth Cymru** am olrhain cysylltiadau a sut bydd yn gweithio.
- Os nad yw'r symptomau o ganlyniad i'r coronafeirws, sicrhau bod unigolion a'u cysylltiadau'n gallu dychwelyd i'w trefn arferol cyn gynted ag sy'n bosibl.
- Darparu cyngor a **chanllawiau**, yn enwedig os yw'r sawl sydd â symptomau neu eu cysylltiadau yn y 'grŵp gwarchod' neu'r grŵp **risg uwch**.

Drwy leihau'r trosglwyddo yn ein cymunedau, a drwy fynd ati'n gyflym i adnabod ac i ynysu'r rheini sydd mewn perygl o ddatblygu COVID-19 ar ôl dod i gyswllt agos gydag unigolyn positif (ee cysylltiad hysbys neu aelod o'r teulu) byddwn yn helpu i agor ysgolion, colegau a lleoliadau blynyddoedd cynnar yn ehangach.

Dylai darparwyr atgyfnerthu'r negeseuon hyn ac yn benodol dylent atgoffa pawb sy'n dangos unrhyw un o symptomau'r feirws y dylent hunanyynysu ar unwaith ac archebu prawf. Dylai'r rheini sy'n byw gyda rhywun sydd â symptomau hefyd hunanyynysu.

Os ceir canlyniad positif, bydd swyddog olrhain cysylltiadau yn cysylltu â'r sawl a gafodd y prawf i helpu i ganfod cysylltiadau posibl. Bydd ail swyddog olrhain cysylltiadau wedyn yn cysylltu â'r cysylltiadau hynny ac yn eu cynghori i hunanyynysu. Dim ond os ydynt yn datblygu symptomau y bydd angen i'r bobl hyn wneud y prawf.

Pan fydd staff wedi dilyn y rheolau cadw pellter cymdeithasol/corfforol ac wedi dilyn y mesurau golchi dwylo a hylendid anadlol yn ystod eu gwaith a, phan roedd angen, wedi defnyddio cyfarpar diogelu personol neu wedi gweithio y tu ôl i sgrin neu bartisiwn priodol, mae'n annhebygol y byddent yn cael eu hystyried fel rhan o ymarfer olrhain cysylltiadau at y dibenion hyn. Mae'n bwysig cofio, serch hynny, hyd yn oed pan fo gan ddarparwr bob rheoliad priodol yn eu lle, na

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-dysgu-ol-16-fersiwn-30-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am [hawlfraint](#).

fydd gweithwyr o reidrwydd yn cofio bob amser pan maent wedi methu dilyn y rheoliadau yma.

Nid yw prawf positif yn golygu bod angen cau'r safle. Mae'r broses o brofi ac olrhain cysylltiadau yn rhan o'r 'normal newydd' a phan fydd darparwyr yn dilyn y canllawiau hyn yn ofalus, nid oes rheswm dros boeni. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar olrhain cysylltiadau a phrofi mewn lleoliadau addysgol ar gael ar [wefan Llywodraeth Cymru](#) a dylid ei darllen ar y cyd â'r adran hon.

Cyfyngu ar unrhyw achos drwy ddilyn cyngor y tîm diogelu iechyd lleol

Gan adeiladu ar Y Cynllun ar gyfer Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru (2020) mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi darparu [cyngor penodol](#) ynghylch ymchwilio i glystyrau a brigiadau o achosion o COVID-19 a'u rheoli mewn lleoliadau addysgol. Mae'r cyngor yn amlinellu pa gamau y dylid eu cymryd i ddiogelu unigolion a chymunedau lle ceir brigiadau, yn ogystal â lleihau'r lledaeniad i gymunedau eraill.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-dysgu-ol-16-fersiwn-30-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Canllawiau ar weithredu'n ddiogel dysgu ôl-16 \(fersiwn 3.0\)](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-dysgu-ol-16-fersiwn-30-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-dysgu-ol-16-fersiwn-30-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).